Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Botwnnog
# Botwnnog
# Llyn
# Gwynedd
# LL53 8PY

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/03/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Botwnnog yn ysgol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed sydd yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Botwnnog, ac yn gwasanaethu dalgylch gwledig eang ym Mhenrhyn Llŷn. Mae'n ardal sydd wedi ei dynodi yn ardal o brydferthwch naturiol eithriadol a'r prif ddiwydiannau yw amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae 419 o ddisgyblion ar y gofrestr o gymharu â 517 adeg yr arolygiad blaenorol yn 2007.

Mae 8.8% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau bwyd ysgol am ddim, cyfran sylweddol is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 17.7%. Mae 20% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda thua 4% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na'r ffigyrau cenedlaethol.

Mae tri chwarter y disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. Fodd bynnag, mae 98% o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a phrif gyfrwng yr addysgu yw'r Gymraeg. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifol ethnig ac nid oes disgyblion sy'n derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cafodd y pennaeth presennol ei benodi ym Medi 2002. Yn ogystal â'r pennaeth, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Botwnnog yn 2013-2014 yw £4,608. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,249 a'r lleiafswm yw £4,186. Mae Ysgol Botwnnog yn y nawfed safle o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg;
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar, ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim;
- bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn;
- yr ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau cyffredinol yn ogystal â chyrsiau galwedigaethol sydd yn berthnasol i'r ardal leol;
- addysgu o ansawdd uchel yn hybu cynnydd arwyddocaol ym medrau a dealltwriaeth bynciol y disgyblion; a bod
- yr ysgol yn gynhwysol, ag ethos Gymreig gref.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn i'r ysgol sydd wedi cael effaith fuddiol ar safonau cyrhaeddiad disgyblion;
- rheolwyr a'r staff addysgu yn coleddu'r nod o godi a chynnal safonau uchel;
- diwylliant cryf iawn o hunanarfarnu ym mhob agwedd o waith yr ysgol;
- rheolwyr ar bob lefel yn cynnal gweithgareddau monitro ansawdd yn drwyadl;
- cynllunio manwl a bwriadus yr ysgol wedi cyfrannu'n sylweddol at ansawdd uchel yr addysgu; a bod
- y corff llywodraethol yn gweithredu'n effeithiol fel cyfaill beirniadol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl drefniadau newid ar gyfer gwersi ymarfer corff yn addas

A2 Sicrhau bod pob aelod o staff yn llwyr ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau diogelu plant yr ysgol

A3 Lleihau'r bwlch rhwng cyflawniadau'r bechgyn o gymharu â'r merched mewn mathemateg

A4 Rhannu'r arferion addysgu ac asesu ardderchog ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd o ran prosesau asesu ar gyfer dysgu yn ystod yr arolygiad.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg wedi bod yn uwch nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg ac yn gyson yn arwyddocaol yn uwch na'r disgwyliadau. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi bod yn gyffredinol yn uwch nag ysgolion eraill tebyg. Yn 2013, roedd perfformiad yn y dangosydd hyn yn sylweddol uwch nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn rhwng y cyfnodau allweddol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r gyfran o ddisgyblion sydd yn gadael yr ysgol heb gymhwyster wedi bod yn isel iawn.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a pherfformiad y merched yn y mwyafrif o ddangosyddion ychydig yn fwy nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg. Fodd bynnag, yn 2013, mae'r bwlch rhwng y bechgyn a merched yn llai nag ydyw mewn ysgolion tebyg yn y dangosydd sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau, ac mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae perfformiad y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn sylweddol uwch nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg mewn llawer o ddangosyddion allweddol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn.

Ym mron pob gwers, mae'r disgyblion yn awyddus iawn i ddysgu ac yn cydweithio'n gynhyrchiol mewn parau a grwpiau bach. Mewn trafodaethau grŵp, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar farnau eraill ac yn ystyried safbwyntiau eu cyfoedion yn feddylgar. Yn y gwersi hyn, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dealltwriaeth bynciol. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion afael gadarn ar derminoleg sy'n benodol i bwnc. Yn y rhan fwyaf o bynciau, datblyga'r disgyblion eu medrau dadansoddol yn effeithiol i ddod i gasgliadau synhwyrol.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth ddofn o'r testunau maent yn eu hastudio. Yn y gwersi hyn mae llawer o ddisgyblion yn dehongli tystiolaeth gymhleth yn llwyddiannus i ddod at gasgliadau meddylgar a dilys. Yn ogystal â hyn, llwydda llawer o'r disgyblion i adnabod ystyron ymhlyg mewn testunau dwys a chymhwyso eu dysgu i sefyllfaoedd anghyfarwydd mewn ffordd greadigol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhugl a chyfforddus wrth siarad yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r disgyblion hyn yn sensitif i hyfedredd disgyblion eraill yn y Gymraeg, ac yn defnyddio'u medrau ieithyddol i sicrhau cynhwysiad pawb ac estyn medrau ieithyddol disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfathrebu'n eglur ar lafar ac yn defnyddio'r dafodiaith leol neu Gymraeg ffurfiol mewn ffordd sy'n addas i'r gynulleidfa a'r diben.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cywain gwybodaeth yn fedrus o ystod o ffynonellau yn llwyddiannus. Mae'r ychydig o ddisgyblion sydd yn cyrraedd yr ysgol â medrau darllen gwan yn gwneud cynnydd da iawn mewn grwpiau ymyrraeth.

Ym mron pob pwnc, mae disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig at ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio geirfa bynciol a chyffredinol eang a chyfoethog. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion afael gadarn ar reolau gramadeg, sillafu ac atalnodi yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn amrediad eang o bynciau, er enghraifft trwy grynhoi data o arolygon neu ddarganfod yr amser mewn gwahanol wledydd. Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu graddfeydd synhwyrol er mwyn arddangos data ar graffiau heb gymorth a phlotio'r rhain yn gywir. Gall y disgyblion hyn ddisgrifio a dehongli patrymau cymhleth yn y data. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn gallu dewis y llinell mwyaf addas i'w hychwanegu i'r graffiau hyn.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall sut i fyw bywyd iach ac mae cyfran uchel ohonynt yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol buddiol. Fodd bynnag, nid yw'r merched yn hapus â'r trefniadau newid ar gyfer gweithgareddau chwaraeon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ystyried bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw achos o fwlio.

Mae'r disgyblion iau yn elwa ar gyngor a chymorth gwerthfawr gan eu 'bydis' ym Mlwyddyn 11. Mae'r disgyblion wedi dylanwadu'n adeiladol ar agweddau o'r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol mewn gweithgareddau 'Pawb â'i Farn'. Mae'r cyngor ysgol wedi bod yn weithredol, er enghraifft trwy gyfrannu at wella'r arlwy yn y ffreutur a chynyddu'r nifer o finiau ailgylchu.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi bod ymhlith yn yr hanner is neu'r chwarter isaf o ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2013, bu gwelliant sylweddol ym mhresenoldeb y disgyblion gan osod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae ffigyrau heb eu gwireddu, o gymharu â'r un cyfnod llynedd, yn dangos cynnydd pellach. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda, gan ddangos diddordeb a chymhelliant uchel iawn wrth ymgymryd â'u tasgau. Mae lefelau gwaharddiad yr ysgol yn isel iawn ac ni fu gwaharddiad parhaol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Mae cyfran uchel o'r disgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau diwylliannol Cymreig, er enghraifft cystadlaethau llenyddol a threfnu nosweithiau llawen yn y gymuned leol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn trin ei gilydd, eu hathrawon ac ymwelwyr â pharch.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sydd yn eang a chytbwys ac yn adeiladau'n fuddiol ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod eang o gyrsiau cyffredinol yn ogystal â chyrsiau galwedigaethol sydd yn berthnasol i'r ardal leol, er enghraifft amaethyddiaeth a pheirianneg, ac agweddau morwrol. Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws y pynciau yn effeithiol ac yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, yn cynnwys chwaraeon a theithiau addysgol, sydd yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ennill cymwysterau mewn cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu trwy ei threfniadau ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Fel rhan o'r ddarpariaeth hon, mae disgyblion yn datblygu eu medrau ehangach yn effeithiol, er enghraifft drwy drefnu gweithgareddau yn y gymuned megis y 'Noson Goffi' sydd yn codi symiau sylweddol ar gyfer elusennau.

Mae'r ysgol yn hybu defnyddio'r Gymraeg ymhlith y disgyblion yn effeithiol iawn ac mae bron pob disgybl yn dilyn y cwrs Cymraeg TGAU fel iaith gyntaf. Yn ogystal â hyn, mae llawer o'r disgyblion yn dewis sefyll pump neu fwy o gymwysterau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n llwyddiannus i godi dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol a ieithyddol Cymru. Mae'r ysgol yn cynllunio'n fanwl i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd cynaliadwyedd a materion byd-eang trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol ac ar draws y cwricwlwm.

## Addysgu: Rhagorol

Mae ansawdd uchel yr addysgu a gweithgareddau asesu'n cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd arwyddocaol ym medrau a dealltwriaeth bynciol y disgyblion.

Mae bron pob athro'n cynnig model iaith da yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn meithrin perthynas weithio arbennig o gynhyrchiol â'r disgyblion. Ym mron pob un o'r gwersi, mae cynllunio crefftus ac amrywiaeth o weithgareddau symbylol i ennyn diddordeb y disgyblion a sicrhau tempo cyflym. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu, a lle y bo'n briodol, medrau rhifedd y disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio cwestiynau agored i brofi ac estyn dealltwriaeth y disgyblion a sbarduno ymatebion estynedig. Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn addasu'r gwaith i ddiwallu anghenion disgyblion unigol yn sgil ymwybyddiaeth dda o'u cryfderau a'u gwendidau. Mae'r cynorthwywyr dysgu yn rhoi cefnogaeth ddefnyddiol iawn i sicrhau bod disgyblion penodol yn datblygu annibyniaeth a gwneud cynnydd cyson dda.

Mewn lleiafrif o wersi, mae addysgu ardderchog. Yn y gwersi hyn, ceir holi treiddgar i herio syniadau disgyblion a'u symbylu i feddwl yn ddyfnach. Mae gan yr athrawon

yn y gwersi hyn ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Yn ogystal â hyn, ceir amrediad o weithgareddau dychmygus i sicrhau her gynyddol i gynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu eu hyder wrth ymdrin â chysyniadau cymhleth. Mewn ychydig o wersi, mae defnydd buddiol iawn o fedrau trawsieithu disgyblion, er enghraifft wrth gymharu patrymau iaith yn Ffrangeg, y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae bron pob athro'n cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae'r athrawon hyn yn marcio llyfrau'n rheolaidd ac yn cynnig adborth ysgrifenedig defnyddiol iawn sydd yn esbonio'n glir yr hyn mae angen ei wneud i wella. Ar draws y cwricwlwm, ceir tasgau hunanasesu neu asesu cymheiriaid hynod ddefnyddiol i wella medrau llythrennedd a dealltwriaeth bynciol y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau buddiol sydd yn llwyddo i ffocysu sylw'r disgyblion ar elfennau penodol o lythrennedd eu cyfoedion mewn darnau o ysgrifennu estynedig.

Mae gan yr ysgol system dracio hylaw i olrhain cynnydd disgyblion ac adnabod unrhyw dangyflawni'n amserol. Yn sgil y wybodaeth yn deillio o'r system hon, mae gweithdrefnau dilynol effeithiol i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd eu potensial.

Derbynia'r rhieni wybodaeth ddefnyddiol ynghylch cynnydd eu plant mewn cyfarfodydd rhieni ac adroddiadau interim a blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn briodol drwy gydweithio'n agos ag ystod eang o asiantaethau arbenigol. Mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i fodloni'r gofynion newydd ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol yn y gwasanaethau a thrwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a gwersi addysg grefyddol.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor gwerthfawr i ddisgyblion wrth iddynt ddewis eu pynciau yng nghyfnod allweddol 4 ac wrth iddynt symud i'r cam nesaf o'u haddysg neu fyd gwaith. Mae gan yr ysgol bolisïau priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Fodd bynnag, nid yw'r arweiniad na'r hyfforddiant wedi cael digon o effaith ar arferion proffesiynol ychydig iawn o staff.

Caiff disgyblion ag anghenion addysgol arbennig eu cynnwys ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol ac mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn gynhwysfawr ac effeithiol. Mae'r ysgol yn eu galluogi i fanteisio ar gwricwlwm addas a phwrpasol. Mae'r cynlluniau addysgu unigol o ansawdd uchel ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda mewnbwn addas y rhieni a'r disgyblion. Maent yn rhoi arweiniad gwerthfawr i athrawon i sicrhau bod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Caiff disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gefnogaeth fuddiol gan gynorthwywyr ag arbenigedd benodol, sydd wedi derbyn hyfforddiant ar agweddau penodol megis anawsterau llythrennedd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gynhwysol, gydag ethos Cymreig cryf. Caiff disgyblion gyfleoedd cyfartal ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn herio stereoteipio yn

effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ei holl agweddau. Mae'r ysgol yn cymryd camau priodol i sicrhau bod y disgyblion yn datblygu agweddau goddefgar.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau i gefnogi'r dysgu, yn cynnwys llyfrgell ddefnyddiol, nifer uchel o gyfrifiaduron cyfoes a maes chwarae pob tywydd. Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r fferm ddeng erw sydd yn caniatáu i'r ysgol gynnig profiadau addysgol perthnasol i'r disgyblion. Mae ansawdd uchel i adeiladau'r ysgol ac mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac ar hyd y coridorau yn helpu i greu amgylchedd dysgu ysgogol.

Mae'r adeilad a'r safle yn cael eu cynnal yn dda ac maent yn rhydd o sbwriel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

### Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn gadarn gan osod blaenoriaethau perthnasol yn eglur. Mae'r ddau ddirprwy bennaeth yn rhannu'r un weledigaeth ac yn cynorthwyo'r pennaeth yn briodol. Mae'r rheolwyr canol ac athrawon hefyd yn coleddu'r nod o godi a chynnal safonau uchel. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cyflawni safonau cyrhaeddiad cyson uchel ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol.

Mae rheolwyr ar bob lefel yn defnyddio data perthnasol yn fedrus i fonitro perfformiad disgyblion ac yn gosod targedau heriol i adrannau pwnc. Mae gan yr ysgol ddulliau monitro cynhwysfawr a thrylwyr. Mae'r uwch dîm rheoli yn herio unrhyw achos o danberfformio ymysg y staff yn effeithiol ac yn rhoi cefnogaeth fuddiol i'r staff hyn i wella'u perfformiad. Trwy gyfweliadau unigol gyda'r pennaeth, mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Yn ogystal, mae aelodau o'r uwch dîm yn mynychu cyfarfodydd adran neu faes dysgu i sicrhau ffocws parhaus ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi sylw dilys i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth leihau effaith tlodi a hybu dwyieithrwydd.

Mae'r corff llywodraethol yn arddangos adnabyddiaeth dda o berfformiad yr ysgol ac yn cyflawni eu gofynion statudol yn briodol. Mae cynrychiolwyr penodol o'r corff yn cyfrannu'n benodol at ddatblygiadau cwricwlaidd o fewn yr ysgol, er enghraifft yn gysylltiedig â llythrennedd a rhifedd. Mae'r trefniant hwn yn cryfhau eu hymwybyddiaeth o strategaethau'r ysgol i wireddu blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r corff yn cadw golwg cyson ar wahanol agweddau o waith yr ysgol ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol yn effeithiol wrth fonitro safonau a chanlyniadau'r ysgol.

### Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer gwella ansawdd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau cyrhaeddiad disgyblion ym mron pob dangosydd perfformiad allweddol.

Mae diwylliant cryf iawn o hunanarfarnu ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae rheolwyr ar bob lefel yn cyflawni monitro trwyadl o waith disgyblion yn ogystal ag

arsylwi gwersi, canfod barn disgyblion a rhieni a llunio dadansoddiadau o ddata perfformiad cywir a miniog. Elfen bwysig yn llwyddiant y trefniadau hyn yw'r disgwyliadau uchel iawn ar reolwyr canol i fonitro ac arfarnu eu meysydd cyfrifoldeb yn drylwyr. O ganlyniad, mae arweinwyr yn cadw ffocws parhaus ar effaith eu darpariaeth ac yn ymateb yn amserol i'r canfyddiadau hyn.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan a'r rhai adrannol yn cynnwys dadansoddiadau manwl gywir o ddata perfformiad. Mae'r dogfennau hyn yn dathlu llwyddiannau ac yn nodi meysydd priodol i'w gwella mewn ffordd dreiddgar a hunanarfarnol. Mae'r ysgol yn ategu'r gweithdrefnau hyn yn ddefnyddiol trwy fanteisio ar arbenigedd asiantaethau ymgynghorol. O ganlyniad i'r agweddau hyn, mae gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth ddofn o bob agwedd ar waith yr ysgol.

Mae cyswllt clir rhwng casgliadau'r prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae cynlluniau datblygu'r ysgol yn cynnwys targedau uchelgeisiol, meini prawf llwyddiant penodol ac yn nodi cyfrifoldebau monitro yn glir. Ceir cysylltiad cryf rhwng cynllun datblygu'r ysgol a chynlluniau datblygu adrannol, ynghyd â strategaethau priodol bwriadus i gyflawni nodau'r ysgol. Mae'r cynllunio manwl hwn wedi cyfrannu'n sylweddol at ansawdd uchel yr addysgu a'r safonau rhagorol mae'r disgyblion yn eu cyflawni.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth fuddiol â'r ysgolion cynradd partner. Mae prosesau pontio'r ysgol yn llwyddiannus wrth helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym a sicrhau dilyniant priodol yn eu gwaith.

Trwy weithio'n gynhyrchiol gyda choleg lleol ac ysgol uwchradd arall, mae'r ysgol wedi llwyddo i ehangu'r ystod o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon.

Mae'r ysgol yn cynnal perthynas agos a chynhyrchiol â'r gymdeithas leol, er enghraifft trwy gynnal partïon ar gyfer 'Clybiau Henoed Llŷn'. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni ac mae niferoedd uchel ohonynt yn mynychu'r cyfarfodydd rhieni defnyddiol. Trwy weithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau allanol, mae'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion bregus yn effeithiol. Mae partneriaethau cynhyrchiol â busnesau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn derbyn darpar athrawon o brifysgolion Bangor ac Aberystwyth, sydd yn helpu'r athrawon i ddatblygu eu medrau proffesiynol.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir yn ofalus iawn i sicrhau profiadau addysgol o ansawdd uchel iawn. Mewn cyfnod o gyfyngu ar niferoedd, mae'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm. Mae bron pob aelod o staff yn addysgu o fewn eu harbenigedd bynciol. Caiff yr ychydig iawn nad ydynt yn arbenigwyr pwnc, hyfforddiant ac arweiniad effeithiol i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o ofynion y pwnc.

Mae'r drefn rheoli perfformiad yn sicrhau amcanion dilys a defnyddiol i athrawon a rheolwyr.  Mae'r amcanion hyn yn plethu'n agos â phrif flaenoriaethau'r ysgol.  Mae gofynion hyfforddiant y staff yn cael eu diwallu'n llwyddiannus iawn trwy ddefnyddio arbenigedd aelodau o staff mewnol yn ogystal â chyfranwyr allanol.  Mae sawl gweithgor proffesiynol buddiol a dylanwadol wedi eu sefydlu yn seiliedig ar flaenoriaethau megis llythrennedd a lleihau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched.  Mae ffrwyth llafur y gweithgorau hyn yn cael ei rannu'n effeithiol iawn ar draws yr adrannau ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer diwallu blaenoriaethau ysgol ac adrannol.

Yn sgil ansawdd uchel iawn yr addysgu, a'r deilliannau rhagorol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae'r  ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dros y pedair blynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a pherfformiad wedi ei fodelu. Yn ogystal â hyn, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn gyson yr hanner uwch yn ôl prydau ysgol am ddim. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg yn ôl prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn uwch na'r teulu ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner neu'r chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella ac yn 2012 a 2013, roedd yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ymhlith yr hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y chwarter uchaf neu'r hanner uwch o ysgolion tebyg yn ôl prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Yn y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf ar lefel 2 yn gyson yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yn lefel 2 Saesneg yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ac yn yr hanner uwch neu'r chwarter uchaf yn nhair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi codi ac mae'n gyson uwch na'r teulu ac yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar, ac yn 2013 yn gosod yr ysgol uwchben y teulu ac yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Gwna'r disgyblion gynnydd da iawn ar sail eu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol blaenorol.

Mae perfformiad bechgyn dros y pedair blynedd diwethaf ychydig yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg yn y mwyafrif o'r prif ddangosyddion. Fodd bynnag, yn 2013, roedd y bwlch rhwng y bechgyn a merched yn llai na chyfartaledd y teulu yn y dangosydd lefel 2, Cymraeg lefel 2, Saesneg lefel 2 a gwyddoniaeth lefel 2.

Yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, lefel 2 a'r sgôr pwyntiau gyfartalog wedi'i chapio, mae perfformiad y disgyblion sydd â'r hawl i brydau am ddim yn sylweddol yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf, gan osod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Ers 2010, mae perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 5 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 wedi gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ers 2010 ac yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn chwarter uchaf

neu'r hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yn y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch wedi amrywio ers 2010 ac yn 2013, yn gosod yr ysgol ychydig yn is na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ers 2010, ac mae'n gyson yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ymhlith yr hanner uwch o ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Cymraeg yn gyson, yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg wedi codi ac yn gosod yr ysgol yn gyson yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg wedi amrywio yn y pedair blynedd diwethaf ac uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diweddaraf. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'n gyson yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Mae perfformiad y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau am ddim yn y dangosydd pwnc craidd yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 93 | 61<br>66%<br>43% | 30<br>32%<br>52% | 2<br>2%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying | 92 | 39<br>42%<br>26% | 48<br>52%<br>58% | 5<br>5%<br>14% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I have someone to talk to if I am worried | 92 | 54<br>59%<br>38% | 32<br>35%<br>53% | 6<br>7%<br>8% | 0<br>0%<br>1% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| The school teaches me how to keep healthy | 93 | 27<br>29%<br>23% | 60<br>65%<br>57% | 6<br>6%<br>18% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 93 | 54<br>58%<br>46% | 34<br>37%<br>45% | 5<br>5%<br>8% | 0<br>0%<br>1% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 93 | 36<br>39%<br>32% | 51<br>55%<br>62% | 5<br>5%<br>5% | 1<br>1%<br>1% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 93 | 55<br>59%<br>38% | 35<br>38%<br>55% | 3<br>3%<br>6% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 93 | 28<br>30%<br>20% | 51<br>55%<br>54% | 13<br>14%<br>21% | 1<br>1%<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 93 | 57<br>61%<br>45% | 32<br>34%<br>47% | 4<br>4%<br>7% | 0<br>0%<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Pupils behave well and I can get my work done | 93 | 15<br>16%<br>10% | 61<br>66%<br>57% | 16<br>17%<br>27% | 1<br>1%<br>6% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 92 | 42<br>46%<br>28% | 40<br>43%<br>50% | 10<br>11%<br>17% | 0<br>0%<br>5% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 93 | 29<br>31% | 54<br>58% | 9<br>10% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 93 | 50<br>54% | 40<br>43% | 3<br>3% | 0<br>0% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 92 | 46<br>50% | 39<br>42% | 6<br>7% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 8% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 93 | 49<br>53% | 35<br>38% | 9<br>10% | 0<br>0% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 93 | 52<br>56% | 37<br>40% | 3<br>3% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 35% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 49 | 20<br>41% | 24<br>49% | 5<br>10% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 15 | 4<br>27% | 6<br>40% | 3<br>20% | 2<br>13% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 28% | 50% | 15% | 7% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 141 | 75 | 62 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 53% | 44% | 3% | 0% | | |
| | | 43% | 50% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 141 | 72 | 61 | 8 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 51% | 43% | 6% | 0% | | |
| | | 47% | 47% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 141 | 64 | 73 | 4 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 45% | 52% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 140 | 71 | 61 | 7 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 51% | 44% | 5% | 0% | | |
| | | 44% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 140 | 39 | 78 | 14 | 1 | 8 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 28% | 56% | 10% | 1% | | |
| | | 22% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 140 | 59 | 70 | 9 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 42% | 50% | 6% | 0% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 142 | 77 | 62 | 3 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 54% | 44% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 140 | 56 | 77 | 5 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 40% | 55% | 4% | 0% | | |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 138 | 49 | 65 | 8 | 4 | 12 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 36% | 47% | 6% | 3% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 142 | 54 | 71 | 10 | 0 | 7 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 38% | 50% | 7% | 0% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 141 | 71 | 65 | 1 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 50% | 46% | 1% | 0% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 138 | 56<br>41% | 62<br>45% | 8<br>6% | 2<br>1% | 10 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 31% | 46% | 7% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 140 | 49<br>35% | 77<br>55% | 13<br>9% | 1<br>1% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 33% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 141 | 60<br>43% | 64<br>45% | 10<br>7% | 4<br>3% | 3 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 41% | 49% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 142 | 48<br>34% | 74<br>52% | 9<br>6% | 2<br>1% | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 142 | 55<br>39% | 70<br>49% | 6<br>4% | 0<br>0% | 11 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 138 | 43<br>31% | 64<br>46% | 10<br>7% | 0<br>0% | 21 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 142 | 32<br>23% | 78<br>55% | 19<br>13% | 7<br>5% | 6 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 140 | 60<br>43% | 71<br>51% | 5<br>4% | 1<br>1% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| David Ivor Hughes | Arolygydd Tîm |
| Simon Davies | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Catrin Mathias | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dylan Minnice | Enwebai |

.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |